# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Chwefror 2025** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

---

### 2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. Daeth y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) i fodolaeth ar ddechrau blwyddyn 2022/23 ac fe gyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf honno yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet fis Rhagfyr 2023.

ii. Gan ddilyn yr un drefn, dyma gyfle i'r Cabinet benderfynu os ydynt yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cywir a chytbwys a'i peidio o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/24 er mwyn cyrraedd uchelgais y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).

iii. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnig tystiolaeth am sut mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r wybodaeth berthnasol ym mhennod 3 ac yna ar ddiwedd pob un o benodau 6 i 12.

iv. Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad Blynyddol mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 23 Ionawr, ac mae sylwadau'r pwyllgor wedi eu crynhoi yn 4. isod.

v. Gall y Cabinet hefyd gynnig sylwadau ac arweiniad ar drywydd gwaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i'r dyfodol.

### 3. Cefndir

i. Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

ii. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

iii. Mae Cyngor Gwynedd, fel y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn casglu data ar allyriadau ac amsugno carbon gan ddilyn methodoleg sydd wedi ei datblygu gan Lywodraeth Cymru. Buom yn casglu data ar gyfer blwyddyn 2023/24 gan ddilyn y prosesau hyn, ac rydym yn defnyddio data 2019/20 fel ei blwyddyn waelodlin ar gyfer cymhariaeth.

iv. Mae angen i ni gasglu data am y carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael, ond mae'r fethodoleg bresennol yn seiliedig ar fesur yn ôl gwariant ariannol yn unig. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario, po fwyaf yw'r allyriadau. Oherwydd y gall hyn greu darlun amherffaith o'r gwir sefyllfa mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi dau set o ddata gwahanol – gyda chaffael a heb ddata caffael.

v. Ar sail y data hwn rydym yn gwybod faint yw'r 'bwlch i sero net' ac felly faint yn rhagor o waith sydd o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein targed.

## 4. Argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau

i. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 23 Ionawr ac mae eu sylwadau a'u hargymhellion o faterion i'w trafod gan y Cabinet wedi eu nodi isod:

  ii. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth
  iii. Argymell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am yr hyn sy'n gyfrifol am y canrannau allyriadau carbon
  iv. Bod y pwyllgor yn craffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried
  v. Gofyn i Arweinydd y Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adolygu'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o brosesau caffael.

vi. O ran argymhelliad 4.iii uchod byddwn yn rhannu data manwl gydag aelodau'r pwyllgor yn uniongyrchol, gan bod cynifer o daenlenni ni fyddai'n ymarferol i gynnwys popeth o fewn yr Adroddiad Blynyddol.

vii. O ran argymhelliad 4.iv, byddwn yn rhaglennu bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cael blaen-graffu drafft newydd o'r CAHN cyn iddo gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

viii. Mae cais wedi ei gyflwyno i Arweinydd Cyngor i weithredu ar argymhelliad 4.v.

## 5. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

i. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

ii. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac ynddo y mae 6 amcan ar gyfer gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd

Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain sy'n seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac yna mae angen adrodd ar y cynnydd.

iii. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn diweddaru ein Cynllun Adfer Natur ein hunain yn ystod 2024/25 er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond yn y cyfamser rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn 6 amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur. Mae'r wybodaeth i'w weld ym mhennod 3 ac ar ddiwedd penodau 5 i 11.

## 6. Prif Faterion

i. Mae pennod 5 yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac am y ffigwr holl-bwysig, sef y bwlch sy'n weddill er mwyn cyrraedd sero net. Ein bwlch i sero net yn 2023/24 oedd 17,430,668 kg$CO_2$e.

ii. Mae'r allyriadau carbon o'n prosesau caffael yn seiliedig ar wariant un unig ar hyn bryd, a gall hyn greu darlun camarweiniol o wir effaith ein gwariant ar yr hinsawdd. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

iii. Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd, gan gynnwys caffael, wedi syrthio 16% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2023/24. Os ydym yn diystyru caffael yna mae'r cwymp yn 37%.

iv. Wrth edrych ar ein data allyru ac amsugno carbon, heb ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 35% yn llai yn 2023/24 o'i gymharu â 2019/20 ac 1% yn llai na 2022/23.

**Ariannu'r Cynllun**

<u>Incwm</u>

v. Yng nghyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 fe gytunwyd i greu cronfa 'cynllun hinsawdd' gwerth £3m drwy'r broses bidiau refeniw un-tro, at bwrpas gweithredu'r CAHN.

vi. Yn ogystal â hynny, fe wnaeth y Cabinet gytuno yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022 i ddefnyddio £2.8m o'i gronfeydd cyffredinol i ariannu cynllun buddsoddi mewn paneli solar PV ar 54 o'n hadeiladau, gyda'r arbedion refeniw yn cyfrannu at ein cynllun arbedion.

vii. Mae nifer o'r prosiectau eraill yn y CAHN, fel y prosiect PV uchod, yn cyfrannu at arbedion ariannol i'r Cyngor yn ogystal ag arbed allyriadau carbon. Gan fod nifer ohonynt yn brosiectau peilot nid oes gennym sicrwydd pendant o'r ffigurau eto, ond er enghraifft disgwylir i'r Cynllun Fflyd Werdd arwain at arbedion o £603,000 dros 5 mlynedd, a bydd y cynllun peilot goleuadau LED yn arwain at £53,000 o arbedion refeniw.

viii. Gan fod costau gweithredu prosiectau'r CAHN mor uchel mae'n gwbl hanfodol i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau allanol er mwyn ychwanegu at y gronfa fewnol y cyfeirir ati uchod. Mae'r cyllid grant yn cynnal nifer fawr o'n prosiectau – ee. cynlluniau ynni, prynu fflyd, prosiectau o dan ofal Partneriaeth Natur Gwynedd.

<u>Gwariant</u>

ix. Hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024 roedd £2,207,984 allan o Gronfa Hinsawdd y Cyngor naill ai wedi ei wario neu wedi ei neilltuo i'w wario. Mae hynny'n gadael £792,015 yn weddill.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

i. Byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar ein gwefan ac yn rhannu gwybodaeth amdano.

ii. Byddwn yn parhau i gyd-drafod ac adeiladu perthynas gyda phartneriaid allanol er mwyn trafod gwersi a ddysgwyd o waith ein gilydd, a sut orau i ddatblygu'r gwaith i'r dyfodol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n nodi fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi rhoi ystyriaeth i'r adroddiad. Dylai'r Cabinet roi sylw priodol i'r argymhellion a'r ymateb a gynigir. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur